PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Ordinhad 2

# Y Cyngor: Cadeirydd y Cyngor

| | |
|---|---|
| **Corff cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 27 Ebrill 2026 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Pennaeth Llywodraethiant a Risg |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiedig |
| **Fersiwn:** | 2 |
| **Dyddiad adolygu:** | Ebrill 2029 |

# Ordinhad 2
# Y Cyngor: Cadeirydd y Cyngor

1. Penodi Cadeirydd y Cyngor

Pan ddaw swydd Cadeirydd y Cyngor yn wag, bydd y Cyngor yn cyfarwyddo'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i sefydlu Pwyllgor Penodi priodol ei gyfansoddiad. Bydd y Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor, neu yn ei absenoldeb gan aelod annibynnol uwch o'r Cyngor a benodir gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, yn lle'r Cadeirydd sy'n ymadael, er mwyn bwrw ymlaen â phroses recriwtio allanol briodol i adnabod:

1) Aelod annibynnol newydd i'w benodi i'r Cyngor, ar y ddealltwriaeth y byddai'r unigolyn yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor; neu

2) Gwahodd enwebiadau gyda'r bwriad o ethol unigolyn sydd eisoes yn gwasanaethu ar y Cyngor fel aelod annibynnol, a'r cyfnod yn swydd y Cadeirydd heb fod yn fwy na dyddiad gorffen penodiad gwreiddiol yr unigolyn i'r Cyngor.

Fel arfer, bydd aelodaeth y Pwyllgor Penodi yn cael ei thynnu o blith aelodau'r Cyngor. Wrth ffurfio'r Pwyllgor, dylai Cadeirydd y Pwyllgor hefyd ystyried a fyddai cynnwys aelod allanol yn fuddiol er mwyn cryfhau annibyniaeth a didueddrwydd y broses benodi. Dylai'r Cadeirydd hefyd sicrhau bod trefniadau priodol ar waith, naill ai drwy aelodaeth o'r Pwyllgor neu drwy'r broses benodi, i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i lais y staff a'r myfyrwyr.

Wrth benodi i swydd wag Cadeirydd y Cyngor, bydd y Cyngor yn ystyried gallu'r Cyngor i gynnal ei fusnes yn Gymraeg ac yn Saesneg. Penodir Cadeirydd y Cyngor gan gyfeirio at y disgrifiad rôl ar gyfer Cadeirydd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

2. Cyfnod y Swydd

Fel arfer, cyfnod swydd Cadeirydd y Cyngor fydd pedair blynedd. Bydd y Cadeirydd yn gymwys i'w benodi am gyfnod pellach o bedair blynedd fel arfer, yn unol â'r ddarpariaeth a nodir yng Nghymal 12 o'r Siarter.

3. Swyddogaethau Cadeirydd y Cyngor

Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennir gan y Cyngor, a fydd yn cynnwys:

i. Darparu arweinyddiaeth i'r Cyngor a chadeirio cyfarfodydd y Cyngor;

ii. Gweithredu fel Cadeirydd ex-officio ar bwyllgorau dewis i benodi'r Canghellor, y Dirprwy Gangellorion a'r Is-Ganghellor;

iii. Cyflwyno anerchiad blynyddol I'r Llys;

iv. Rheolwr llinell ar yr Is-Ganghellor ar ran y Cyngor, ac ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r adnoddau dynol parthed yr unigolyn hwnnw; ac

v. Ymgymryd â gweithgareddau ar ran y Brifysgol a mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a chyrff eraill o'r fath.

4. Ymddiswyddo a diswyddo

i. Gall Cadeirydd y Cyngor ymddiswyddo trwy roi rhybudd ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Brifysgol.

ii. Pan fydd ymddiswyddiad o'r fath yn digwydd, gall yr unigolyn dan sylw barhau fel aelod annibynnol o'r Cyngor. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath ni fydd cyfnod newydd yn dechrau.

iii. Os yw'r mwyafrif o blith y Dirprwy-Ganghellor/Gangellorion a'r Is-Ganghellor yn credu y dylid diswyddo Cadeirydd y Cyngor yn eu barn hwy:

a. Yn sylweddol, yn ystod y 12 mis blaenorol, ni allodd gyflawni'r swydd; neu
b. Methiant ac esgeulustod sylweddol i gyflawni'r swydd; neu
c. Ymddwyn mewn modd sy'n amhriodol i Gadeirydd y Cyngor.
d. Unrhyw achos da arall a ddiffinnir yn Ordinhad 1, paragraff 1.4.

Ar ôl rhoi cyfle i'r unigolyn dan sylw gyflwyno sylwadau, bydd Panel sy'n cynnwys tri aelod annibynnol o'r Cyngor, dan gadeiryddiaeth Dirprwy-Ganghellor ac wedi'i hwyluso gan Ysgrifennydd y Brifysgol yn cael ei sefydlu, i ystyried yr achos a gwneud argymhelliad i'r Cyngor ynghylch cadarnhau neu ei wrthod. Caiff y Cadeirydd ei ddiswyddo os bydd mwyafrif o holl aelodau'r Cyngor yn pasio penderfyniad i wneud hynny.